Inspection of Youth Offending Work
Arolygiad o Waith Troseddu Ieuenctid

HM Inspectorate of Probation
6th Floor, Trafford House, Chester Road, Stretford, Manchester M32 0RS
0161 869 1300 www.justice.gov.uk/about/hmi-probation

| | |
|---|---|
| *At:* | Dave Street, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Lleol Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid |
| *Copi at:* | Gweler y rhestr ar y diwedd |
| *Oddi wrth:* | Julie Fox, Prif Arolygydd Cynorthwyol |
| *Dyddiad cyhoeddi:* | 24 Gorffennaf 2013 |

**Adroddiad ar Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) gwaith troseddu ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r arolygiad SQS diweddar, a gynhaliwyd ar 17-19 Mehefin 2013. Fe wnaethom gynnal hwn fel rhan o'n rhaglen o arolygu gwaith troseddu ieuenctid. Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Darperir copi i arolygiaethau partner i lywio eu harolygiadau, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB).

## Cyd-destun

Fel arolygiaeth annibynnol, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ar effeithiolrwydd gwaith gyda'r rhai sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu, yn hyrwyddo gwelliant parhaus gan y sefydliadau rydym yn eu harolygu ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol.

Mae asesu a chynllunio o ansawdd da ar ddechrau dedfryd yn hanfodol i gynyddu'r tebygolrwydd o gael canlyniadau cadarnhaol. Diben yr arolygiad SQS yw asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith achos gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, ar ddechrau sampl o 20 o achosion diweddar a oruchwylwyd gan Wasanaeth Troseddu Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili. Lle bynnag y bo'n bosibl, gwneir hyn ar y cyd â'r rheolwr achos perthnasol , a thrwy hynny gynyddu'r effeithiolrwydd fel cyfle dysgu ar gyfer staff.

Casglwn dystiolaeth yn erbyn meini prawf SQS, sydd ar gael oddi ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi - [http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation](http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation).

## Crynodeb

Yn gyffredinol, cawsom fod Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid (YOS) Blaenau Gwent a Chaerffili'n perfformio'n dda. Roedd staff yr YOS yn llawn cymhelliant ac yn siarad yn gadarnhaol am y sefydliad a'u cyfraniad at y gwaith. Roedd gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf yn 2010, yn enwedig i'r gwaith diogelu plant ac amddiffyn y cyhoedd. Dylid canolbwyntio ymdrechion pellach yn awr ar sicrhau bod yr holl asesiadau a chynlluniau o ansawdd da. O ystyried ymrwymiad y staff a'r rheolwyr rydym yn rhagweld y gellir ailadrodd y safonau a arsylwyd yn y mwyafrif o achosion ar draws yr holl waith.

**Sylwadau ar yr arolygiad ym Mlaenau Gwent a Chaerffili:**

## 1. Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu

1.1. Rydym yn edrych i weld a yw'r asesiad ynghylch pam fod y plentyn neu'r person ifanc wedi troseddu yn ddigon da a gwelwyd ei fod felly ym mhob achos. Roedd gwiriadau a wnaed gydag asiantaethau eraill megis ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol wedi helpu i roi darlun llawn o amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc.

1.2. Darparwyd adroddiadau cyn-dedfrydu llawn i'r llys mewn saith achos. Ar y cyfan, roeddent yn cael eu hystyried i fod o ansawdd da. Roedd pob un o'r saith wedi rhoi sylw digonol i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau posibl i ymgysylltu. Mewn un achos, dylid bod wedi rhoi gwell sylw i asesu pa mor agored i niwed yw'r plentyn neu'r person ifanc a'r risg o niwed i eraill.

1.3. Mewn rhai achosion, roedd dedfrydu wedi'i lywio gan ddiweddariad llafar ar gynnydd yn hytrach nag ar adroddiad ysgrifenedig. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn yn briodol, ond roedd angen bod yn ofalus i sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o hyn yn y ffeil achos bob tro.

1.4. Yn dilyn yr asesiad rydym yn disgwyl gweld cynllun gwaith i helpu i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Roedd hyn yn ei le ac o ansawdd digonol yn y mwyafrif helaeth o achosion.

1.5. Ym mhob achos bron, roedd yr asesu a'r cynllunio i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu wedi cael eu hadolygu'n briodol, gan gymryd i ystyriaeth newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc.

## 2. Diogelu'r cyhoedd

2.1. Rydym yn disgwyl gweld asesiad manwl o'r risg o niwed y mae plentyn neu berson ifanc yn ei beri i eraill. Fe gawsom bod hyn wedi digwydd mewn tri chwarter o'r achosion, a oedd yn welliant sylweddol ers ein harolygiad diwethaf. O'r gweddill, roedd angen tynnu gwell sylw at gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys troseddu ac ymddygiad yn y gorffennol, yn ogystal â'r effaith ar ddioddefwyr. Mewn dau achos, fe wnaethom anghytuno â'r asesiad o lefel y niwed i eraill, gan ystyried bod y rhain heb eu gwerthfawrogi'n llawn.

2.2. Ar ôl asesu'r risgiau, dylai'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid roi cynlluniau ar waith i'w rheoli. Roedd hyn wedi cael ei wneud yn dda mewn 15 allan o 19 achos perthnasol. O'r gweddill, roedd cynlluniau ymyrryd wedi methu â sylwi ar rai agweddau niweidiol o ymddygiad. Ymhellach, nid oedd yr ymateb arfaethedig yn eglur bob amser pe bai'r risg o niwed i eraill yn cynyddu.

2.3. Roedd yr un achos cymwys ar gyfer Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) wedi cael ei hysbysu'n briodol i'r awdurdod perthnasol. Gwnaethom, fodd bynnag, weld dryswch gydag achos arall lle'r oedd staff wedi cymryd yn ganiataol ei fod yn gymwys ar gyfer MAPPA lle nad oedd hyn yn wir, mewn gwirionedd.

2.4. Gall y risg o niwed a berir i eraill newid dros amser, ac felly mae angen parhau i adolygu hyn. Cawsom fod yr asesiad risg o niwed wedi cael ei adolygu'n ddigonol mewn tri chwarter o'r achosion perthnasol.

2.5. Lle'r oedd dioddefwr y gellid ei adnabod neu ddioddefwr posibl, roedd y risg o niwed yn ei wynebu wedi'i reoli'n effeithiol mewn dros dri chwarter o'r achosion perthnasol. Roedd angen cyfeirio'n well wrth asesu a chynllunio diogelwch dioddefwyr yn y gweddill.

2.6. Roedd goruchwylio rheolwyr wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau ansawdd y gwaith i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill mewn pump allan o ddeg achos perthnasol. Mewn rhai achosion, roedd angen mwy o graffu cyn cydlofnodi asesiadau a chynlluniau.

## 3. Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc

3.1. Mewn llawer o achosion, mae plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu hefyd yn agored i niwed ac rydym yn disgwyl gweld bod hyn wedi'i ystyried. Cawsom fod ychydig dros dri chwarter o'r achosion wedi cael asesiad digonol o ran diogelu ac anghenion bod yn agored i niwed. Mewn dau achos, roeddem yn teimlo bod y lefel o fod yn agored i niwed heb ei werthfawrogi'n llawn.

3.2. Roedd cynllunio i fynd i'r afael â materion bod yn agored i niwed a diogelu yn ddigon da yn y pum achos cadw'n y ddalfa, ond nid bob amser felly gydag achosion yn y gymuned. Lle'r oedd bylchau (mewn 5 allan o 15 achos perthnasol), roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys yr angen i deilwra cynlluniau ymyrryd yn well i anghenion a aseswyd a dim digon o ymateb wedi'i gynllunio pe byddai lefel bod yn agored i niwed yn cynyddu.

3.3. Mae anghenion diogelu plant a phobl ifanc yn newid dros amser ac mae'n rhaid, felly, parhau i'w hadolygu. Cawsom fod asesiadau a chynlluniau wedi'u hadolygu i safon dderbyniol mewn ymhell dros drichwarter o'r achosion a samplwyd. Mewn un achos, gan ddangos agwedd weithredol ac ymchwiliol, roedd ymweliadau cartref wedi codi pryderon am les merch ifanc gan arwain at ymweliadau ar y cyd gyda gweithwyr proffesiynol eraill ac chyfeirio at wasanaethau arbenigol i atal camfanteisio rhywiol.

3.4. Roedd goruchwylio gan reolwyr ychydig yn fwy effeithiol o ran sicrhau ansawdd y gwaith o ran helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc. Er bod angen parhau i wella, mae hyn hefyd yn dangos cynnydd sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

## 4. Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau

4.1. Rydym yn disgwyl gweld bod y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid yn gwneud popeth yn ei allu i helpu plant a phobl ifanc i gwblhau eu dedfrydau yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys eu hymgysylltu â'u rhieni/gofalwyr yn y prosesau asesu a chynllunio, gan nodi a mynd i'r afael â rhwystrau o ran ymgysylltu, a rhoi mesurau ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion eu dedfryd.

4.2. Roedd materion amrywiaeth a rhwystrau posibl eraill i ymgysylltu, gan gynnwys anghenion lles ac iechyd y plentyn neu'r person ifanc, wedi'u hasesu'n ddigonol ym mhob achos. Ar gyfer y mwyafrif helaeth, roedd anghenion a nodwyd wedyn yn cael sylw yn y cynllun gwaith.

4.3. Roedd ymgysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr er mwyn cwblhau asesiadau a chynlluniau yn agwedd gref ar arferion yn y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid.

4.4. Wrth arolygu yng Nghymru, rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o sgrinio gweithredol ac amserol o'r dewis iaith Cymraeg/Saesneg ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Nid oedd hyn wedi'i archwilio'n ddigon da mewn pedwar achos. Yn aml iawn, y pwynt cyswllt cyntaf gyda staff y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid yw yn y llys, a byddai ysgogiad ychwanegol ar y ffurflen monitro llys yn helpu i gasglu'r wybodaeth hon.

4.5. Roedd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc yn ein sampl wedi cydymffurfio â'u gorchymyn. I'r rhai nad oedd wedi gwneud hynny, cawsom fod y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid wedi ymateb yn briodol ym mhob achos ond un. Roedd hyn yn glod i'r ymdrechion a wnaed gan reolwyr achos, gan gynnwys ymweld â'r cartref a gweithio gyda rhieni/gofalwyr i geisio cydymffurfio. Os oedd anawsterau penodol, cynhaliodd y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid 'baneli cydymffurfio' ac roedd yn cynnwys y teulu neu unigolion eraill perthnasol. Yn aml, byddai hyn yn helpu i gael plant a phobl ifanc yn ôl ar y trywydd iawn.

**Rheoli gweithredol**

Fe wnaethom gyfweld chwe rheolwr achos ac fe wnaethant siarad yn gadarnhaol am y trefniadau rheoli gweithredol yng Ngwasanaethu Troseddu Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili. Roedd pawb yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu gwaith a dywedwyd bod gan eu rheolwyr y gallu a'r wybodaeth briodol. Cawsom fod yr holl reolwyr achos yn deall egwyddorion arfer effeithiol ac yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rheoli risg o niwed, diogelu, ymgysylltu a chydymffurfio. Roedd pawb yn teimlo bod eu hanghenion hyfforddi a sgiliau yn cael eu bodloni yn llawn mewn perthynas â'u swydd bresennol a theimlai'r mwyafrif iddynt gael ymateb i'w hanghenion datblygu yn y dyfodol hefyd. Un bwlch a nodwyd gan staff oedd hyfforddiant anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc.

Roedd goruchwylio rheolwyr wedi bod yn ganolbwynt gwaith i'w wella ers yr arolygiad diwethaf ac er bod gwelliannau wedi'u nodi, roedd gwaith pellach i'w wneud. Mewn rhai achosion, roedd angen mwy o graffu cyn cydlofnodi cynlluniau rheoli risg a bod yn agored i niwed, gan sicrhau bod trefniadau wrth gefn penodol wedi'u nodi pe bai amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc yn newid.

**Cryfderau allweddol**

Roedd yr agweddau gorau ar waith a welsom ym Mlaenau Gwent a Chaerffili'n cynnwys:

- y gwelliant sylweddol mewn arfer ers yr arolygiad diwethaf. Er bod tîm y rheolwyr wedi hyrwyddo hyn, roedd gr□p y staff wedi mabwysiadu hyn yn llwyr. Roedd y gr□p staff yn ymroddedig i'w gwaith a'u cymuned
- ymgysylltu plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Roedd hyn wedyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gweithio tuag at leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.

**Maes i'w wella**

Y maes mwyaf arwyddocaol ar gyfer gwella yw:

i. Goruchwylio rheoli cyson i sicrhau ansawdd yr asesiadau risg o niwed i eraill ac ansawdd y cynlluniau i fynd i'r afael â bod yn agored i niwed.

Argymhellwn yn gryf eich bod yn canolbwyntio eich gwaith gwella ar ôl arolygiad ar yr agweddau penodol hyn ar arfer.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom gan staff yn y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid i hwyluso a chydweithredu â'r arolygiad hwn. Mynegwch ein diolch, a sicrhewch eu bod yn cael gwybodaeth lawn am ganlyniadau'r arolygiad hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr arolygiad, cysylltwch â'r arolygydd arweiniol sef Helen Davies. Gellir cysylltu â hi ar 07919 490420 neu drwy e-bost ar helen.davies@hmiprobation.gsi.gov.uk.

Copi at:
Michaela Rogers, Rheolwr Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid
David Wagget, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Nigel Barnett, Prif Weithredwr Dros Dro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Liz Majer, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Anita Hobbs, Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Robin Woodyatt, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Barrie Sutton, Aelod Gweithredol Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
David Poole, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Dusty Kennedy, Pennaeth BCI Cymru
Phillip Davies, Pennaeth Goruchwylio a Chefnogaeth BCI Cymru
Staff cyswllt BCI gydag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
Estyn
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
Arolygiaeth Iechyd Cymru
Ian Johnston, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent

Nodyn: I dderbyn copi o'r adroddiad hwn ar bapur, cysylltwch â HMI Probation Publications publications@hmiprobation.gsi.gov.uk, 0161 869 1300